


Rhif: 12

Enw'r Ardal Cymeriad
Morwedd:

Dŵr dwfn Pen-caer



ACM12:Dŵr Dwfn Pen-caer



Y môr tu hwnt i oleudy Pen-caer [wedi ei gymryd o SCA 11]



Y môr gyda'r cwch fferi'n gadael yr ardal am ddyfroedd sy'n agosach at Abergwaun [wedi ei gymryd o SCA 10]

Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal o ddŵr dwfn tua 400m oddi ar Ben-caer yn y man agosaf at yr arfordir ac yn rhedeg allan at y môr tua'r gogledd ddwyrain. Mae pwysau'r tonnau'n isel ac mae llawr y môr yn dywod graeanog. Mae cwch fferi Abergwaun-Rosslare yn croesi'r ardal yn ogystal â chychod modur a hwylio sy'n pasio rhwng De Cymru a Gogledd Cymru neu Iwerddon.

Nodweddion Allweddol

- Ardal syml o ddŵr dwfn gyda phwysau isel gan y tonnau a llawr y môr yn raeanog ac ar oledd ysgafn yn agos at Ben-caer i'r de-ddwyrain.
- Dim ond un llongdrylliad sydd yn yr ardal.
- Mae'r cwch fferi a chychod mordeithio hamdden a masnachol yn teithio ar hyd yr ardal hon.
- Mae'n rhan o'r olygfa di-dor, heb ei difetha o Ben-caer, Garn Fawr a Llwybr yr Arfordir sy'n cyfrannu at osodiad yr arfordir.
- Llonyddwch, gwylltineb a phellenigrwydd y dŵr agored.

Nodweddion Ffisegol

Dŵr dwfn (60-100m), llawr y môr o dywod graeanog ac ar oledd ysgafn (<1^o) mewn ardal o foroedd llac sy'n agored i bwysau isel gan y tonnau. Mae gwaddodion llawr y môr yn gorwedd dros graigwely o gerrig llaid a thywodfeini Palalosöig Is sy'n taro dwyrain-gogledd ddwyrain - gorllewin-de orllewin, tywodfeini a cherrig llaid Permaidd a thywodfeini a chalchfaen Jwrasig.

Dylanwadau diwylliannol

Mae'r llwybrau/cysylltiadau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal hon yn cynnwys y masnach arfordirol a hanes cysylltiadau morwrol ar hyd y ddyfrffordd orllewinol. Fel ardal o ddŵr dwfn sy'n weddol ddi-beryl dim ond un llongdrylliad a gofnodwyd - sef Moyallon, math o long lannau Brydeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf a suddodd ym 1924.

Mae cwch fferi Abergwaun-Rosslare yn croesi'r ardal ac, o bosib, rhai cychod masnachol. Mae yna lwybr mordeithio modur a hwyliau sy'n cysylltu pwyntiau tua'r de a Gogledd Cymru ar draws Bae Ceredigion. Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod gyda'r glannau, dal gwichiaid moch, cimwch a chrancod mewn potiau ac mae yna bosibilrwydd ar gyfer mân-dreillio estyllod. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rown 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#)

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Ni ymwelwyd â'r ardal, er y cafodd ei gweld o Ben-caer. Disgwylir y byddai'r profiad o'r ardal yn newid yn sylweddol mewn perthynas â'r arfordir, gan amrywio o'r arfordir yn dominyddu ar tua 400m o bellter i'r arfordir yn llinell un dimensiwn yn y pellter ar y gorwel gyda llinell syml o liw ar ymylon allanol yr ardal. Pen-caer a goleudy Pen-caer fyddai'r prif dirnodau. Ni fyddai'r olaf yn amlwg ar yr ymylon allanol ac eithrio yn y nos fel y prif ffynhonnell golau. Yn agosach, fe fydd manylder y goleudy a'r dirwedd ym amlwg.

Mae gan yr ardal gymeriad syml, cyson ac unedig, ar raddfa eang, a naws agored ac ynysig. Pennir y rhinweddau yn gyfan gwbl gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonnau a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de orllewin ac mewn tywydd gwael mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Mae yna debygrwydd cryf o heddwch ac ymdeimlad gwyllt ac anghysbell yn yr ardal hon, er y byddai hyn yn gostwng oherwydd y cychod fferi a thraffig masnachol a hamdden arall.

O'r prif dir, mae'r ardal yn rhan bwysig o'r golygfeydd gwych o Ben-caer, Garn Fawr a Llwybr yr Arfordir fel rhan o arfordir gorllewinol gwyllt Cymru sydd heb ei ddifetha.

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden forol, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y golygfeydd sydd heb eu difetha o'r arfordir, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r naws anghysbell a heddychlun a chysylltiad gyda natur.

Rhesymau dros newid							
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid						
<p>Rhesymau cyfyngedig dros newid mewn ardaloedd morol o ddŵr dwfn.</p> <p>Cynnydd posib yn y defnydd gan gyhod masnachol neu hamdden.</p> <p>Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.</p>	Rhinweddau Arbennig	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a rhvsaota Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
	Ysblander yr Arfordir						
	Ynysoedd						
	Amrywiaeth y Tirlun						
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch						
	Daeareg Amrywiol						
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth						
	Archeoleg Gyfoethog						
	Cymeriad Anheddiad Nodedig						
	Treftadaeth Ddiwylliannol						
	Mynediad i'r Parc						
	Lle i Anadlu						
	Allwedd						
Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig							
Sensitifeddau allweddol							
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd				Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd			
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhan o'r olygfa ddi-dor, heb ei difetha o Ben-caer, Garn Fawr a Llwybr yr Arfordir sy'n cyfrannu at osodiad yr arfordir. Llonyddwch, gwylltineb a phellenigrwydd y dŵr agored. Mae cwch fferi a chychod mordeithio hamdden yn teithio ar hyd yr ardal hon. Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnwydd sensitif. 				<ul style="list-style-type: none"> Mae cwch fferi a chychod masnachol yn teithio ar hyd yr ardal hon. Goleudy gerllaw gyda golau yn y nos. 			